

Amlenni casglu

Oes oes unrhyw un o aelodau Capel Coch angen rhagor o amlenni casglu ar gyfer eu cyfraniadau rheolaidd at yr Achos rhowch wybod i'r Trysorydd, Mr Colin Jones neu unrhyw un o'r swyddogion os gwelwch yn dda. Cyfeiriad a rhif ffôn Colin yw Bryn Gelli, Gellihirbant, Llanberis -01286 871150.

Mae amlenni ar gyfer Ebeneser a Chefnywaun i'w cael yn yr oedfaon. Os oes unrhyw drafferth, gellir cysylltu â swyddogion yr eglwysi er mwyn cael amlenni casglu.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Ionawr 27: Y Gymdeithas Undebol yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Ionawr 29: Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr dan nawdd

eglwys Saron, Llanwnda am 7.00 o'r gloch yn Ysgol Gynradd Felinwnda, yn cynnwys oedfa Gymun

Dydd Sul, Chwefror 2: Y Gweinidog am 9.30 a 5.00 o'r gloch, ac Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

Gweinyddir y Cymundeb yn oedfa'r hwyr.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Ionawr 29: Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr dan nawdd eglwys Saron, Llanwnda am 7.00 o'r gloch yn Ysgol Gynradd Felinwnda.

Nos Wener, Ionawr 31: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 2: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes; a bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 2: Uno yn y gwasanaethau yn Capel Coch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 26

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas
Deiniolen

Chwefror 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog
Oedfa Gymun

Chwefror 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Andrew Settatree

Chwefror 16

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 2

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

Chwefror 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Chwefror 16

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 576- Dydd Sul, 26 Ionawr, 2014

Heb i ni sylwi

Fûm i ddim yng Nghaerdydd ers tro byd. Hyd y cofiaf, unwaith yn unig y sylwais ar gopi o'r *Daily Post* ar werth mewn siop yn y Brifddinas, a hynny mewn siop bapur fechan dros y ffordd i'r Castell. Waeth i mi heb â chwilio amdano yn y siop honno na'r un siop arall y tro nesaf y byddaf yno, pryd bynnag fydd hynny. Mae perchnogion y papur wedi penderfynu na chaiff ei werthu yn unman i'r De o Aberystwyth eto. Mae llawer yn poeni y bydd gwleidyddion Y Senedd o'r herwydd yn gwybod llai fyth o hyn allan am ein hanghenion ni yn y Gogledd.

Ond trueni pethau yw mai ychydig a fydd yn gweld ei golli gan nad oes ond oddeutu 80 o gopiâu o'r papur yn cael eu gwerthu yn y De, a'r cyfan ohonynt, mae'n debyg, yng Nghaerdydd. Bydd wedi diflannu o siopau'r De heb i'r rhelyw o bobl sylwi. Bydd yn dal ar gael yma yn y Gogledd wrth gwrs. Ond nid felly'r hen *Liverpool Daily Post* yr arferem ei dderbyn. Fersiwn arbennig o bapur Lerpwl ar gyfer Gogledd Cymru oedd y *Daily Post* y bu pobl y Gogledd yn ei ddarllen am flynyddoedd, nes iddo ddod yn bapur annibynnol yn 2003. Daliodd papur y Gogledd ei dir ers hynny, ond nid dyna fu hanes papur Lerpwl. Ym mis Ionawr 2012 trodd y *Liverpool Daily Post* yn *Liverpool Post* wrth i'r papur dyddiol fynd yn bapur wythnosol. Rwy'n cofio darllen am hynny ar y pryd. Ond wyddwn i ddim bod y papur, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1855, wedi dod i ben pan gyhoeddwyd y rhifyn olaf un ar Ragfyr 19, 2013.

Ond rhyfeddach na bod papur Lerpwl wedi diflannu heb i mi sylwi yw'r ffaith bod cymaint o bethau'n newid o fewn ein heglwysi heb i bobl sylwi arnynt. Mae aml i gapel wedi cau heb i bobl yr ardal sylwi. Ond nid pethau gwael yn unig chwaith, gan fod rhai pethau da'n digwydd heb i ni sylwi arnynt. Clywais rywrai'n rhyfeddu'n ddiweddar o ddeall bod *Y Tyst*, papur wythnosol yr Annibynwyr, yn dal i gael ei gyhoeddi. Roedden nhw'n credu iddo ddod i ben flynyddoedd yn ôl. Neu beth am yr holl weithgarwch Cristnogol sy'n cyflwyno'r Ffydd i blant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw? Mae sawl elusen yn cynnal gwaith o'r fath ar hyd ac ar led y wlad. Mae llawer o weithwyr ifanc yn frwd dros rannu'r newyddion da am Iesu Grist. Mae yna ieuencid yn cyfarfod yn gyson mewn capeli ac eglwysi. Mae yna doreth o adnoddau newydd yn cael eu darparu ar eu cyfer. Mae yna bobl ifanc sy'n dweud yn agored am eu cariad at yr Arglwydd Iesu. Mae yna gyfrannu hael at waith y Deyrnas. (Gredwch chi fy mod wedi derbyn llythyr ddoe ddiwethaf oddi wrth un teulu o'r tu allan i'r fro i addo £40 y mis at Gynllun Efe?) Oes, mae cymaint o bethau gwych a chalonogol yn digwydd, a ninnau heb sylwi arnynt o gwbl. Ac mae hynny'n drueni gan fod clywed am yr holl bethau da sy'n digwydd yng ngwaith y Deyrnas yn sicr o godi calon a rhoi i ni obaith mawr wrth i ninnau ymdrechu bob dydd yng ngwasanaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul cyntaf y flwyddyn newydd. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd a thrwy'r flwyddyn ar ei hyd.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canoin Idris Thomas, Deiniolen. Croeso cynnes iddo a diolch iddo am ei wasanaeth.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch dan arweiniad Mrs Susan Williams a minnau. BDiolch i Susan am ei help. Byddaf fi'n arwain yr oedfa am 5.00 o'r gloch.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Wener nesaf, Ionawr 31.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Ionawr 27. Y gwr gwadd fydd Mr Gareth Roberts, Deiniolen, a thestun ei sgwrs fydd, 'Hanes Lleol Deiniolen'. Bydd croeso cynnes i bawb.

Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwn i Gronfa Gronyn. Mae pob rhodd yn help i dalu am ei argraffu bob Sul. Derbyniwyd sawl rhodd ers dechrau'r flwyddyn, sy'n f'atgoffa mai tua'r adeg yma o'r flwyddyn y byddwn yn arfer tynnu sylw at y gronfa. Rydym yn falch o dderbyn rhoddion at y gornfa unrhyw adeg o'r flwyddyn wrth gwrs, ond mae yna gyfle i dynnu sylw at y peth o bryd i'w gilydd.

Gobeithio'n fawr bod Gronyn yn dal i gyflawni ei bwrpas o gyflwyno neges yr Efengyl a gwybodaeth am waith eglwysi'r Ofalaeth hon. Os gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi gwybod i ni.

Gwefan Henaduriaeth

Chi sy'n defnyddio'r We, cofiwch bod gan Henaduriaeth Arfon wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am holl eglwysi'r Henaduriaeth, yn cynnwys eglwysi'r Ofalaeth hon.

Cyfeiriad y wefan honno yw
www.henaduriaetharfon.org

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Phyllis Morris a Mrs Olive Jones, Deiniolen yn y brofedigaeth o golli eu chwaer, Beryl Jones, yng Nghartref Plas Pengwaith yn Llanberis ddydd Sadwrn, Ionawr 18, yn 92 mlwydd oed. Yn ôl a ddeallaf, roedd Beryl yn un o drigolion cyntaf y Cartref, ac yn amlwg felly bydd yn chwith iawn hebddi yno ar ôl yr holl flynyddoedd. Cynhelir ei hangladd bnawn yfory, ddydd Llun, Ionawr 27, yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, am 1.30 o'r gloch.

Banc Bwyd

Gwahoddwn chi os dymunwch i roi bwydydd ym mocs y Banc Bwyd wrth y drws yn Capel Coch. Rydym yn falch o gael cefnogi Banc Bwyd Caernarfon. Diolch am eich haelioni dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychwn ymlaen at allu parhau i gefnogi'r gwaith eleni. Mae trefnwyr y Banc Bwyd yn ddiolchgar am ein cefnogaeth.

Dyma'r math o bethau a dderbynnir:
Llefrith UHT neu bowdr - Siwgr - Sudd
ffrwythau - Cawl tun - Pasta - Tuniau
tomatos - Grawnfwyd - Siocled - Tuniau
pwdin reis - Bagiau te - Coffi - Reis -
Powdwr tatws stwnsh - cig tun - jam -
ffrwythau tun - bisgedi.

Cetrys Inc a Stampiau

Nodyn bach i'ch atgoffa ein bod yn dal i dderbyn hen cetrys inc a hen stampiau yn Capel Coch.

Rydym yn cael arian at yr Ysgol Sul gan y cwmni yr anfonwn y cetrys inc ato.

Mae'r stampiau'n cael eu trosglwyddo i elusen sy'n casglu arian at gael cwn tywys ar gyfer y deillion. Mae pob stamp yn cael eu derbyn, hyd yn oed y rhai mwyaf cyffredin.

Diolch am bob cefnogaeth.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter nesaf Annibynwyr Gogledd Arfon dan nawdd eglwys Saron, Llanwnda nos Fercher, yr wythnos hon, Ionawr 29.

Sylwch mai yn Ysgol Felinwnda ac nid yn y capel y bydd y cyfarfod hwn.

Bydd y Cyfarfod Chwarter yn cychwyn am 7.00 o'r gloch. Ac yna, oddeutu 7.45 o'r gloch cynhelir Oedfa Gymundeb, a byddaf fi'n arwain y gwasanaeth hwnnw.

Capel Got Talent

Bwriedir cynnal Capel Got Talent yn Capel Coch unwaith eto yn dilyn llwyddiant y noson arbennig a gafwyd y llynedd. Manylion pellach i ddilyn.

Rehoboth

Mae aelodau Rehoboth, Nant Peris wedi penderfynu cynnal un oedfa'r mis fyn unig yn Rehoboth yn ystod 2013 ac ymuno â'r addoliad yn Capel Coch ar y Suliau eraill. Edrychwn ymlaen at gael eu cwmni yn Capel Coch mor aml â phosibl.

Cynhelir yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch ar y Suliau canlynol. Os bydd unrhyw newid i'r rhestr hon caiff ei hysbysu mewn da bryd yn Gronyn.

Ionawr 26
Chwefror 9
Mawrth 9
Ebrill 13
Mai 11
Mehfin 8
Gorffennaf 13
Medi 14
Hydref 12
Tachwedd 9
Rhagfyr 14